# Cymraeg i Bawb - TAR Cynradd 2023-24

## Sesiwn 2: 4.10.23
## Berfau

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

eleri.powell@pcydds.ac.uk

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGORiaith

CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

# Yn y sesiwn hon, byddwn ni'n…

- Berfau a berfenwau
- edrych ar y gwahaniaeth rhwng berfau'r presennol a'r gorffennol
- dysgu defnyddio rhai arddodiaid gyda berfenwau
- ymarfer defnyddio berfau sy'n addas ar gyfer aseiniadau

# Adolygu Cenedl Enwau

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=-REPTm4EBUWcuNshUjEeIXRYQUXCrO1IgQSIBz_WPXNUREM5MVRHMkM1NVRMTlZBSlNGUUQ2UTA3SC4u

25 cwestiwn

DEFNYDDIWCH EIRIADUR

# Beth yw'r gwahaniaeth rhwng berf a berfenw?

Bwyta



Bwytais

↑ Berfenw

↑ Berf

# bwyta = berfenw

**Dim ond dangos gweithred a wna ‘bwyta’.**



# Berfenw = enw ar y weithred

# bwytais = berf



Mae ‘bwytais’ hefyd yn dangos **gweithred,** ond mae hefyd yn cynnig ychydig mwy o **fanylion** trwy’r **terfyniad ‘ais’:**

Mae berfau felly’n dweud 3 pheth wrthym ni:

1. beth sy’n cael ei wneud — BETH? 
2. pwy sy’n ei wneud — PWY? 
3. pryd mae’n cael ei wneud — PRYD? ddoe

# Adolygu … berf neu ferfenw?

## Rhowch nhw mewn colofn 'berf' neu 'berfenw'.

1. anghofio
2. bwyta
3. cofrestru
4. credaf
5. tynnodd
6. ewch
7. teithio
8. gwariais
9. gwelais
10. gwrando
11. gwybod
12. gwyddai
13. marcio
14. mynd
15. penderfynodd
16. rhedeg
17. rhedwn ni
18. talu
19. ymlacio
20. ysgrifennaf



# Atebion… berf neu ferfenw?

1. anghofio
2. bwyta
3. cofrestru
4. credaf
5. tynnodd
6. ewch
7. teithio
8. gwariais
9. gwelais
10. gwrando
11. gwybod
12. gwyddai
13. marcio
14. mynd
15. penderfynodd
16. rhedeg
17. rhedwn ni
18. talu
19. ymlacio
20. ysgrifennaf

# Pwy sy'n ei wneud?

Y terfyniad fydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni …

Mae chwe 'pherson' gwahanol i'r ferf …

| | |
|---|---|
| person 1af unigol | **FI** |
| 2il berson unigol | **TI** |
| 3ydd person unigol | **FE (EF) / HI / JOHN** |
| | |
| person 1af lluosog | **NI** |
| 2il berson lluosog | **CHI** |
| 3ydd person lluosog | **NHW** |

# Beth sy'n cael ei wneud?

Rhan gyntaf y ferf sydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni …

| | |
|---|---|
| Canais | **Can(u))**+ais |
| Penderfynodd | **Penderfyn(u)** +odd |
| Darllenon | **Darllen** + on |

# Pryd mae'n cael ei wneud?

Y <u>terfyniad</u> fydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni hefyd.

Mae nifer o amseroedd gwahanol i'r ferf, yn cynnwys …

**<u>Y gorffennol</u>**
rhywbeth sydd wedi digwydd unwaith yn y gorffennol, mae'r weithred ar ben.

**<u>Y presennol</u>**
rhywbeth sy'n digwydd nawr, naill ai fel gweithred unigol neu rywbeth sy'n arfer digwydd ac yn dal i ddigwydd.

**<u>Y dyfodol</u>**
rhywbeth fydd yn digwydd yn y dyfodol h.y heb ddigwydd eto.

# Berfenwau ac arddodiaid

- Beth yw'r arddodiaid?   Pwy sy'n cofio?
- am, ar, at, gan, heb, i , o, dan, dros, drwy, wrth, hyd.
- Ar y sleid nesaf mae enghreifftiau o arddodiaid i'w defnyddio gyda berfenwau

| â/ag | at | ar | am |
| --- | --- | --- | --- |
| cwrdd â | ysgrifennu at | blino ar | edrych am |
| cyffwrdd â | anfon at | gweddïo ar | gofyn am |
| dod â | mynd at | edrych ar | sôn am |
| mynd â | anelu at | gweiddi ar | talu am |
| peidio â | cyfeirio at | gwenu ar | gorffen am |
| sgwrsio â | cerdded at | gwrando ar | mynd am |
| siarad â | symud at | sylwi ar | siopa am |

# Pwysig i athrawon…

- Dweud wrth
- Siarad â
- Ysgrifennu at / Ysgrifennu i
- Gwrando ar
- Cael wrth
- Mynd at / Mynd i

**<u>COFIWCH:</u>**
**Mae pob un ohonoch chi'n athro iaith!**

# Tasg: Gwaith Grŵp

Gweithiwch mewn grŵp.  Meddyliwch am 10 brawddeg bydd athro yn eu dweud wrth ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth gan ddefnyddio **arddodiaid** a **berfenwau**.

Cofiwch fod yr athro yn modelu iaith i blant, felly mae cywirdeb yn bwysig!

# Berf neu ferfenw?
# Pa un ddylwn i ddefnyddio?

Byddwn yn defnyddio berfau neu ferfenwau mewn brawddeg mewn un o ddwy ffordd:

naill ai

- yn eu ffurfiau <u>cwmpasog.</u> — Mae Huw wedi ennill.

neu

- yn eu ffurfiau <u>cryno</u> — Enillodd Huw.

# Sut ydw i'n defnyddio berfenw?

Mae'n rhaid defnyddio ffurf ar y ferf 'bod' gyda berfenw a dyma sy'n rhoi ffurf **gwmpasog** y ferf i ni, sef y ffordd hir o ddweud rhywbeth. Yn aml y ffordd hir (CWMPASOG) fyddwn ni'n ei ddefnyddio ar lafar wrth siarad e.e.

Mae e wedi **gweld** y ffilm.

ffurf ar y ferf 'BOD'

berfenw

# Beth ydych chi'n sylwi?

Gyda'r ffurfiau cwmpasog, byddwn ni'n defnyddio **berfenw** bob tro.

**Fydd gwrthrych y ferf** (y person/peth sy'n 'dioddef' y weithred) **ddim yn treiglo** gyda'r ffurfiau cwmpasog.

Mae hi wedi ennill **cadair** yr Eisteddfod unwaith.

**Enillodd** hi **gadair** yr Eisteddfod unwaith.

# Beth yw berf gryno?

Berf gryno yw'r ffordd fyrrach o ddweud rhywbeth. Ystyriwch y ddwy frawddeg ganlynol:

**Mae Siôn wedi darllen llyfr.**

Mae ystyr rhain yn union yr un fath. **Cwmpasog** yw'r cyntaf. **Cryno** yw'r ail.

**Darllenodd Siôn lyfr.**

# Beth yw’r gwahaniaeth rhwng berf gryno a berf gwmpasog?

Rydym yn defnyddio y **ffurfiau cwmpasog** mewn sefyllfaoedd ble rydym am i’r iaith fod yn **fwy anffurfiol**, yn enwedig ar lafar.

Mae’r **berfau cryno** yn **fwy ffurfiol**, ac felly, maen nhw’n gweddu i sefyllfaoedd ffurfiol yn enwedig rhai ffurfiau ysgrifennu e.e traethodau ac aseiniadau Prifysgol.

# Y Presennol/Dyfodol

Defnyddir y ffurf hon i ddisgrifio:

1) Rhywbeth sy'n digwydd ar y pryd.

e.e. **Gwelaf** i'r haul yn yr awyr, mae'n braf.

2) Rhywbeth fydd yn digwydd yn y dyfodol.

e.e. **Rhedaf** yn y ras yfory.

*3)* Rhywbeth sydd fel arfer yn digwydd.

e.e **Edrychaf** ar y teledu bob bore.

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
RHAGORiaith
www.athrofa.cymru

# Terfyniadau’r presennol

- ...af
- ...i
- ...a[….iff/….ith]
- ...wn
- ...wch
- ...an

- gweithi**af i**
- gweithi **di**
- gweithi**a ef/hi**
- gweithi**wn ni**
- gweithi**wch chi**
- gweithi**an nhw**

…ir (amhersonol)

# Y Gorffennol

Defnyddir y ffurf hon i ddisgrifio:

1) Rhywbeth sydd wedi digwydd ac sydd wedi dod i ben.

e.e. **Tyfodd** y ferch ei gwallt

**Gorffennodd** y dysgwyr y dasg.

**Cwblhaodd** y bechgyn yr arbrawf.

# Y Gorffennol Cryno:

Defnyddir yr amser hwn i ddangos rhywbeth sydd wedi ei wneud yn y gorffennol.

**...ais** i
**...aist** ti
**...odd** e/hi/Sion
**...on** ni
**...och** chi
**...on** nhw

# Yn y dosbarth cynradd...















# Yn y dosbarth uwchradd ...


















# Y Blwch Llythrennedd...




Cardiau drilio







Help llaw

# Sut i ddefnyddio'r cardiau drilio?

Ysgrifennwch frawddeg yn y presennol.




| Presennol/Dyfodol | Gorffennol | |
|---|---|---|
| Rydw i'n... | Rydw i wedi... | Roedd |
| Rwyt ti'n... | Rwyt ti wedi... | Roeddet ti'n... |
| Mae e/hi'n... | Mae e/hi wedi... | Roedd e/hi... |
| Rydyn ni'n... | Rydyn ni wedi... | Roedden ni'n... |
| Rydych chi'n... | Rydych chi wedi... | Roeddech chi'n... |
| Maen nhw... | Maen nhw wedi... | Roedden nhw'n... |

# Sut i ddefnyddio'r cardiau drilio?

Ysgrifennwch frawddeg yn y presennol.




**Maen nhw**'n cerdded ar lwybr yr arfordir.

# Sut i ddefnyddio'r cardiau drilio?

**Ysgrifennwch frawddeg yn y gorffennol cwmpasog.**

| Presennol/Dyfodol | Gorffennol | Ar |
|---|---|---|
| Rydw i'n... | Rydw i wedi... | Roeddwn i'n |
| Rwyt ti'n... | Rwyt ti wedi... | Roeddet ti'n... |
| Mae e/hi'n... | Mae e/hi wedi... | Roedd e/hi... |
| Rydyn ni'n... | Rydyn ni wedi... | Roedden ni'n... |
| Rydych chi'n... | Rydych chi wedi... | Roeddech chi'n... |
| Maen nhw... | Maen nhw wedi... | Roedden nhw'n... |



# Sut i ddefnyddio'r cardiau drilio?

Ysgrifennwch frawddeg yn y gorffennol cwmpasog.




**Maen nhw wedi** cerdded ar lwybr yr arfordir.

# Sut i ddefnyddio’r cardiau drilio?

Ysgrifennwch frawddeg yn y gorffennol cryno.




| | Gorffennol |
|---|---|
| [illegible] | Prynais i |
| Pryni di | Prynaist ti |
| Pryniff e/hi neu Prynith e/hi | Prynodd e / hi |
| Prynwn ni | Prynon ni |
| Prynwch chi | Prynoch chi |
| Prynan nhw | Prynon nhw |

# Sut i ddefnyddio'r cardiau drilio?

Ysgrifennwch frawddeg yn y gorffennol cryno.




**Cerddon nhw** ar lwybr yr arfordir.

# Y Blwch Llythrennedd...




Berfau cryno




Cardiau dilyniannu



# ASEINIAD ECAD6007C

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r myfyriwr: | | Rhif Adnabod y myfyriwr: | |
| Rhaglen: | TAR Cynradd ac Uwchradd | | |
| Modwl: | Y dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu? | | |
| Cod y modwl: | ECAD6007C | Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%): | 100% |
| Darlithydd: | Karl Jones/Ian Jones | Gwiriwr Mewnol: | Dr S.V. Hughes |
| Teitl yr Aseiniad: | Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau dysgu ac addysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth achos am ddysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, wedi'i seilio ar ddigwyddiad critigol a arsylwyd. | Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth): | 5000 |
| Dyddiad cyflwyno: | 07/11/22 (23:59) | Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig: | 05/12/22 |

# Berfau defnyddiol ar gyfer aseiniad ECAD6007

- Mae'r aseiniad yn canolbwyntio ar ymchwil yn yr ystafell ddosbarth er mwyn canfon digwyddiad critigol. Mae hwn wedi digwydd ac wedi gorffen felly mae angen defnyddio berfau yn y GORFFENNOL wrth drafod hwn.

- Rydych chi yn cyfeirio at lenyddiaeth yn eich aseiniad. Gallwch chi ddefnyddio FFURF GWMPASOG y ferf wrth drafod hyn. Neu gallwch chi ddefnyddio BERF UNIGOL yn y PRESENNOL wrth drafod gwaith awdur.

# Berfau ar gyfer aseiniadau

| Berfenw | Person 1af gorffennol | 3ydd person unigol presennol |
|---|---|---|
| arsylwi | arsylwais | arsylwa |
| awgrymu | awgrymais | awgryma |
| dadlau | dadleuais | dadleua |
| dweud | dywedais | dywed |
| egluro | eglurais | eglura |
| esbonio | esboniais | esbonia |
| ymchwilio | ymchwiliais | ymchwilia |

# TASG: ymarfer defnyddio berfau ar gyfer yr aseiniad

- Meddyliwch am yr aseiniad 'Pwy Ydw i'n Addysgu?'

- Ysgrifennwch 5 brawddeg yn defnyddio berfau o'r grid, e.e.

  **Arsylwais** wers ble roedd y ffocws ar rifedd.

  **Dadleua** Vygotsky bod potensial gan bob unigolyn i wella'u gwybodaeth.

- Bydd cyfle i drafod eich brawddegau.







**Adnodd a gyhoeddwyd gan Ganolfan Peniarth.**

Peniarth .cymru

## I agor …

Y farn gyffredinol heddiw yw bod …

Wrth ystyried y pwnc hwn, gellid …

Y pwynt cyntaf y dylid ymdrin ag ef yw …

Un o'r agweddau pwysicaf ar y mater hwn yw …

Gadewch i ni ddechrau drwy archwilio …

Pwynt canolog i'w ystyried wrth drin a thrafod X yw …

Dywedir yn aml fod …

Mae'n ffaith wybyddus fod …

Wrth ystyried y gosodiad uchod yn ofalus, gwelir bod nifer o faterion allweddol yn codi ...

## Strwythuro

Yn gyntaf, yn ail, yn drydydd, yn olaf …

Yn y lle cyntaf …

Awgryma'r ddadl gyntaf fod … Mae'r ail ddadl fodd bynnag yn awgrymu mai ...

I ddechrau …

Wedyn rhaid ystyried …

Mae o leiaf dri phwynt pwysig i'w hystyried yn deillio o'r gosodiad uchod …

## Symud i bwynt newydd

Yr ail ystyriaeth yw …

Nesaf …

Yn dilyn …

**Mewn geiriau eraill – aralleirio**

Hynny yw …

Yn hytrach …

Neu …

O'i roi yn syml …

O'i roi mewn geiriau eraill ...

O'i aralleirio ...

O'i roi yn blwmp ac yn blaen ...

Gan gofio hyn …

**Cyflwyno barn**

Dywed X fod …

… cred X fod …

… awgryma X fod …

… mynna X fod …

… noda X fod …

… mae X yn argyhoeddedig fod …

… dadl X yw bod …

… hawlia X fod …

Yn ôl X …

**Egluro**

Er enghraifft …

Esiampl o hyn yw …

Er mwyn egluro hyn gellid ystyried …

Beth am ystyried …?

Dengys yr esiamplau canlynol fod …

Gan gynnwys …

**Pwysleisio**

Hyd yn oed, wrth gwrs, yn wir, …

Nid yn unig … ond … yn

ogystal / ond ... hefyd …

Gellid mynd mor bell â dweud …

Esiampl nodedig …

Yn bennaf …

Ar y cyfan ...

Yn arbennig …

Er mwyn tanlinellu hyn ...

Er mwyn pwysleisio hyn ...

Mynna hyn fod ...

Mae hyn yn cadarnhau ...

Tynnu sylw arbennig at ...

## Ychwanegu

At hyn …

Yn ychwanegol …

Hefyd …

Ymhellach …

Ni ddylid anghofio bod …

Yn ogystal â …

Ar wahân i hynny gellid hefyd …

Gellid dadlau ymhellach gan ddweud ...

Agwedd lawn mor bwysig yw ...

Mae'n bwysig cofio bod …

## Effaith

O ganlyniad …

Yn dilyn hyn …

Felly …

Oherwydd hyn …

Oblegid hyn …

Canlyniad hyn yw …

Yn deillio o hyn ...

Yn wyneb hyn ...

## Pwyso a mesur

Ni ellir gwadu … fodd bynnag …

Gellir cytuno i raddau â …

Ar y cyfan …

Rhaid derbyn / cyfaddef / …

Ni ellir anwybyddu'r ffaith fod …

Yn yr un modd …

Er gwaethaf …

Tra bod dadl X efallai'n gywir,
rhaid nodi bod …

Ar yr un pryd dylid nodi …

## Cymharu

Yn yr un modd ...

Dadl debyg sydd gan ...

Wrth gymharu 'x' ag 'y' gwelir ...

Yr union yr un broblem sy'n wynebu ...

Felly hefyd ...

Gellir cymharu hyn â sefyllfa …

## Ymresymu

ac

ymhellach

hefyd

## ... i gloi

Pa gasgliad sy'n deillio o'r ddadl hon? ...

I grynhoi ...

Yn gryno ...

Down i'r casgliad bod ...

Yn olaf ...

Mae'r dadleuon a roddwyd ger bron yn awgrymu / dangos yn glir fod ...

Dengys yr holl ddadleuon fod ...

Wedi ystyried y dadleuon hyn rhaid dod i'r casgliad bod ...

Wrth dynnu tua'r terfyn ...

I gloi ...




Mae hi'n amser cinio!